

PWYLLGOR	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD	15 GORFFENNAF 2021
TEITL	TREFNIADAU RHEOLI RISG
PWRPAS YR ADRODDIAD	RHOI DIWEDDARIAD I'R PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU AM DREFNIADAU RHEOLI RISG Y CYNGOR
AWDUR	DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID CYNORTHWYOL (REFENIW A RISG)
GWEITHREDIAD	DERBYN DIWEDDARIAD AM DDATBLYGIADAU I'R TREFNIADAU RHEOLI RISG

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Un o gyfrifoldebau statudol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yw adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol, yn unol â Rhan 81(1)(c) Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.
- 1.2 Pwrpas yr adroddiad hwn yw diweddarau'r Pwyllgor ar ddatblygiadau diweddar yn y maes rheoli risg.

2. SEFYLLFA GYFREDOL

- 2.1 Mae aelodau'r Pwyllgor yn ymwybodol o'r trefniadau sydd yn bodoli ar gyfer asesu a sgorio risgiau, gan ei fod yn cael ei gyflwyno'n rheolaidd fel rhan o ddiweddariad y Rheolwr Archwilio ar waith y gwasanaeth Archwilio Mewnol. Ers 2018, mae dull Archwilio Mewnol o asesu risgiau'r gwasanaethau sy'n cael eu harchwilio yn dilyn y drefn yma.
- 2.2 Cyflwynwyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2020/21 i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 27 Mai. Eglurwyd bryd hynny fod hwnnw wedi cael ei baratoi ar sail y 23 risg llywodraethu sydd wedi cael eu hadnabod ac sy'n cael eu hasesu'n barhaus gan y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu.
- 2.3 Mae drefn a ddefnyddir yn ystyried dau ffactor wrth sgorio maint y risgiau, sef
 - **Effaith** y digwyddiad petai'r risg cael ei wireddu
 - **Tebygolrwydd** y risg o gael ei wireddu.

2.3.1. Mae'r Effaith a'r Tebygolrwydd yn cael eu sgorio o 1 i 5, gan ddefnyddio'r canllawiau sgorio canlynol.

Effaith

Sgôr	Effaith	Diffiniad
5	Catastroffig	Effaith catastroffig ar unrhyw drigolyn (e.e. colli bywyd) neu effaith dinistriol ar fywyd neu les nifer fawr o drigolion
4	Dinistriol	Effaith dinistriol ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. lle byddai ansawdd bywyd neu les rhywun yn cael ei effeithio i'r graddau fod anghenion dwys ganddynt am gymorth i'w galluogi i fyw eu bywydau) neu sylweddol iawn ar nifer fawr o drigolion
3	Sylweddol iawn	Effaith sylweddol iawn ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. effaith yn golygu y byddai ansawdd ei bywyd neu les yn sylweddol is na'r hyn y byddem yn ei ddisgwyl i un o drigolion Gwynedd) neu arwyddocaol ar nifer fawr o drigolion
2	Arwyddocaol	Effaith arwyddocaol ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. effaith ar fywyd neu les ond yn disgyn o fewn amrediad disgwyliadwy bywyd dydd i ddydd) neu gweladwy ar nifer fawr o drigolion
1	Gweladwy	Effaith gweladwy ar fywyd neu les rai trigolion (e.e. effaith yn weladwy ond ddim yn effaith arwyddocaol i'w lles) neu ymylol ar nifer fawr o drigolion.

- Nifer = 10au i 100oedd o drigolion
- Nifer fawr = 1,000oedd i 10,000oedd o drigolion

Tebygolrwydd

Sgôr	Tebygolrwydd	Diffiniad
5	Digwydd rŵan	Mae'r effaith i'w weld rŵan (h.y. mae o'n digwydd)
4	Tebygol iawn	Tebygol iawn y bydd yn amlygu ei hun yn y dyfodol gweladwy
3	Tebygol	Siawns y gallai ddigwydd, ond efallai ddim
2	Annhebygol	Tebygolrwydd iddo ddigwydd yn isel - ond dal yno
1	Annhebygol iawn	Annhebygol iawn o ddigwydd

2.3.2. Lluosir y Sgôr Effaith a'r Sgôr Tebygolrwydd gyda'i gilydd i roi Sgôr Risg Presennol, sef sgoriau'r risgiau ar sail y rheolaethau sydd yn eu lle ar hyn o bryd. Diffinnir Sgôr Risg o uchel iawn i isel fel a ganlyn:

Sgôr 20-25	Risg Uchel iawn
Sgôr 12-16	Risg Uchel
Sgôr 6-10	Risg Ganolig
Sgôr 1-5	Risg Isel

Asesiad Gyfredol

2.4 Mae'r trefniadau rheoli risg yn faes penodol sy'n cael sylw wrth asesu trefniadau llywodraethu'r Cyngor. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol (a gymeradwywyd gan y Pwyllgor ar 27 Mai) yn disgrifio'r sefyllfa bresennol fel a ganlyn:

2.5 Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd: Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

Mae yna drefniadau cryf ar gyfer monitro ein cydymffurfiaeth â rhai mathau penodol o risgiau gweithredol.

Mae pob risg yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol wedi cael ei ystyried o berspectif y risg i Bobl Gwynedd, nid o safbwynt mewnblyg y Cyngor.

Lansiwyd Cofrestr Risg Corfforaethol ar ei newydd wedd ar 6 Mawrth 2021. Mae'r system newydd yn cynnig cyfleuster hwylus i ddefnyddiwr ym mhob adran wrth iddynt ystyried eu blaenoriaethau a nodi beth sydd angen ei wneud, ac i gynorthwyo aelodau i herio perfformiad a sicrhau fod y camau disgwylidig wedi cael eu cymryd.

Mae'r Pandemig Covid-19 wedi bod yn brawf sylweddol i Gynllun Pandemig Ffliw ac i gynlluniau parhad gwasanaeth y Cyngor. Yn syth fe welwyd yr hyn sy'n digwydd gydag unrhyw gynllun, sef bod yna bethau yn digwydd nad ydynt wedi eu cyfarch yn y cynllun. Er enghraifft nid oedd y Cynllun Pandemig Ffliw yn rhagweld y byddai cymdeithas ei hun yn cael ei gloi lawr ac y byddai angen dygymod nid yn unig gydag absenoldebau staff ond hefyd gyda staff i gyd yn gweithio o adref.

Serch hynny llwyddwyd i ymateb ac mae'r nifer cymharol is yn yr achosion na'r hyn a ragwelwyd yn y tafluniadau gwreiddiol; y cyfyngiad yn y nifer marwolaethau a'r ffaith y bu modd i'r Cyngor barhau i ddarparu ei wasanaethau Blaenoriaeth 1 yn dyst i hynny.

3. DATBLYGIADAU DIWEDDAR

3.1 Mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21 yn nodi'r canlynol fel camau pellach sydd angen eu cymryd i gryfhau ymhellach y trefniadau rheoli risg:

Gwaith dal angen ei wneud i sicrhau fod holl adrannau'r Cyngor yn cynnal y drefn o gofnodi eu prif risgiau a'u hadolygu'n rheolaidd. Bydd y Gwasanaeth Yswiriant a Risg yn cefnogi'r holl adrannau er mwyn sicrhau fod defnydd y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn gyson ar draws y Cyngor, ac fod risgiau yn cael eu diweddarau'n barhaus. Bydd y drefn o ystyried cynnwys cofrestrau risg wrth fonitro perfformiad adrannau yn datblygu ymhellach.

3.2 Nodir yn y Datganiad Llywodraethu fod y gofrestr risg ar ei newydd wedd wedi cael ei gyflwyno ar 6 Mawrth. Mae'r gofrestr newydd yn cael ei gadw ar dechnoleg Sharepoint, fel mae iGwynedd, system gadw dogfennau gorfforaethol y Cyngor. Mae hynny'n golygu symud ymlaen o'r drefn flaenorol oedd yn defnyddio taenlen Excel i system dylai fod yn llawer mwy hwylus i'w ddiweddarau a'i gadw dan adolygiad.

3.3 Adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn Nhachwedd 2020 fod nifer yr addasiadau i'r Gofrestr Risg wedi cynyddu, oedd yn arwydd calonogol fod dealltwriaeth o bwysigrwydd y gofrestr yn parhau i gynyddu.

3.4 Mae gwaith pellach angen ei wneud rŵan i sicrhau fod modd adrodd yn hwylus allan o'r system fel rhan o drefniadau adolygu perfformiad y Cyngor, sy'n parhau i esblygu. Y disgwyliad yw y bydd y drefn monitro perfformiad yn ystyried y cynnydd sydd wedi cael ei wneud yn erbyn y camau pellach sydd angen eu cymryd i liniaru'r risgiau yn y gofrestr.

4. COFRESTR GYFREDOL

4.1 Rhoddwyd sylw penodol i'r Gofrestr Risg Corfforaethol gan y Prif Weithredwr ar y pryd yng nghyfarfodydd y Rhwydwaith Rheolwyr yn ystod Hydref / Tachwedd 2020. Defnyddiwyd y cyfle i egluro i reolwyr fod angen i bob adran ystyried ei brif risgiau gan ddefnyddio'r drefn arferol o adnabod materion all ddiwydd ac a fyddai'n effeithio ar allu uned fusnes i wireddu ei bwrrpas.

4.2 Mae gan bob swyddog ar lefel rheolwr neu uwch fynediad at y gofrestr risg gyda'r bwriad o sicrhau ei fod wedi ei ddiweddarau'n briodol mor fuan â phosib. Wrth gwrs, ni fydd y gofrestr byth wedi ei orffen gan ei fod yn ddogfen fyw, ond y disgwyliad yw y byddwn ar bwynt lle mae'r gofrestr yn adlewyrchiad o wir sefyllfa'r Cyngor.

4.3 Ar 2 Gorffennaf 2021, roedd 353 o risgiau wedi cael eu nodi yn y gofrestr risg gorfforaethol. O'r rhain, roedd 62 wedi cael eu harchifo; hynny yw maent wedi cael eu rheoli i lefel dderbyniol ar hyn o bryd a nid oes camau pellach angen eu cymryd. Byddant yn parhau i gael eu hadolygu, ond unwaith y flwyddyn yn hytrach nag yn barhaus.

4.4 Mae hyn yn golygu felly fod **291 o risgiau cyfredol** yn y gofrestr, ond o'r rhain mae 4 ar hyn o bryd heb gael eu sgorio (a byddwn yn dilyn i fyny ar hyn). O'r 287 o risgiau cyfredol wedi cael eu sgorio, maent wedi cael eu categorio fel a ganlyn:

- **Nifer risgiau uchel iawn: 23**
- **Nifer risgiau uchel: 72**
- **Nifer risgiau canolig: 160**
- **Nifer risgiau isel: 32**

4.5 Ar 2 Gorffennaf 2021, roedd y risgiau uchel iawn yn perthyn l'r adrannau canlynol:

Adran	Nifer Risgiau Uchel iawn
Economi a Chymuned	13
Oedolion, Iechyd a Llesiant	6
Plant a Theuluoedd	1
Tai ac Eiddo	1
Ymgynghoriaeth Gwynedd	2
CYFANSWM	23

4.6 Mae manylion yr 23 risg uchel iawn wedi cael eu cynnwys yn yr Atodiad; bydd y risgiau hyn yn cael eu hadolygu'n barhaus gan yr adrannau, er mwyn adolygu os oes modd newid y sgôr am fod y risg wedi profi i fod yn llai nag a ragwelwyd, neu wrth i gamau gweithredu gael eu gwireddu. Bydd rhain wedyn yn cael sylw yn y cyfarfodydd monitro perfformiad.

4.7 Mae'n bwysig nodi hefyd y bydd grŵp o swyddogion – y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu – hefyd yn ymgymryd â rôl cymedroli ar gyfer y gofrestr risg er mwyn sicrhau fod y sgorio yn gyson o un adran i'r llall.

4.8 Bydd cyfarfodydd o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn y dyfodol yn derbyn gwybodaeth am newidiadau o'r sgoriau risg, fel bod modd iddo asesu trefniadau rheoli risg y Cyngor yn unol â'i ddyletswyddau statudol.

4.9 Gwelir o'r Atodiad mai un o risgiau uchaf y Cyngor ar hyn o bryd yn ôl y gofrestr yw'r Busnesau Gwynedd yn cael eu heffeithio yn sgil cytundeb Brexit. Gan fod y gytundeb yma yn ei le ers rhai misoedd bellach, gellir gweld beth yw gwir effaith Brexit ar fusnesau Gwynedd wrth i amser fynd yn ei flaen, gyda golwg i weld os bydd modd newid y sgôr, ond mae ansicrwydd mawr dal i fodoli..

4.10 Nodir fod Cofrestr Risg Brexit benodol yn cael ei chynnal ar wahân ar hyn o bryd.

5. ARGYMHELLIAD

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu dderbyn yr adroddiad hwn fel diweddariad ar y camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i sicrhau fod cofrestr risg gyflawn yn ei le ac yn cael chynnal, ac ystyried y risgiau uchaf mae'r Cyngor yn eu wynebu..

Adran: Economi a Chymuned

Maes: Diweithdra

Risg: Lefelau diweithdra wedi cynyddu yn sydyn yn sgil COVID (E8)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Diweithdra a lleihad mewn incwm aelwydydd yn effeithio ar iechyd a lles unigolion a theuluoedd yn a'r economi. Wedi gwyro blaenoriaethau er mwyn gallu ymateb o fewn adnoddau presennol ac eisoes wedi:

- Ymestyn rhaglen Cymunedau i Waith er mwyn cefnogi mwy o unigolion di-waith sydd wedi eu cyfeirio gan asiantaethau Llywodraeth i dderbyn cymorth i oresgyn rhwystrau i waith
- Cefnogi gweithluoedd sydd yn cael eu diswyddo i'w cefnogi i gael mynediad i'r wybodaeth berthnasol gan y gwahanol wasanaethau a hynny mewn cyfnod lle mae cyfyngiadau COVID
- Cydweithio gyda phartneriaid i ddatblygu rhaglen 'Kickstart' y Llywodraeth yng Ngwynedd. Rôl Cyngor Gwynedd wedi ei gyfyngu i weinyddu'r cynllun ar hyn o bryd a cholli cyfle i fod yn fwy rhagweithiol yn cefnogi busnesau i fod yn rhan o'r cynllun er mwyn datblygu sgiliau gwaith pobl ifanc.

Sgôr Risg: 25

Be sydd gael am ei wneud eto?

Byddwn yn cydweithio gyda Grŵp Llandrillo Menai a'r 3ydd Sector er mwyn darparu cymorth i gefnogi busnesau a chyflogwyr lleol i gyflogi pobl ifanc am gyfnod o 6 mis a datblygu eu sgiliau gwaith. Byddwn yn cydweithio gyda phartneriaid er mwyn amlygu'r wybodaeth a chymorth sydd ar gael i gefnogi'r di-waith a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd cyflogaeth. Byddwn yn cydweithio gyda phartneriaid er mwyn cefnogi unigolion i oresgyn rhwystrau i waith. Bydd tasglu a sefydlwyd yn ystyried os oes camau pellach gall Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid ei gymryd i gefnogi busnesau a chyflogwyr i gynnig profiadau gwaith a chyflogaeth.

Adran: Plant a Theuluoedd

Maes:

Risg: Methu cyfarch ein anghenion fel teuluoedd a chyfarch yr hyn sy'n bwysig i ni oherwydd materion gweithlu. (G2)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Yn y tymor byr iawn (brys) mae angen llenwi bylchau staffio gan wneud cysylltiad hefo gweithwyr cymdeithasol sydd wedi ymddeol neu wedi symud oddi fewn yr Adran; law yn llaw a dargyfeirio staff o dimau sydd yn peri risg llai i'r Adran. Cytuno ar gynllun Tymor Byr gyda cefnogaeth a cyngor Adran Cefnogaeth Gorfforaethol ar gyfer addasu trefniadau recriwtio, amodau gwaith, telerau cytundebau. Gweithio drwy'r Grŵp Recriwtio Gofal i baratoi ar gyfer rheoli'r risg yn y tymor canolig / hir i ddenu a cymhwyso gweithwyr cymdeithasol. Adeiladu cysylltiadau gyda Prifysgol Bangor a'r Asiantaeth Gofal.

Sgôr Risg: 25

Be sydd gael am ei wneud eto?

Angen Cynllun Recriwtio a Datblygu'r Gweithlu mewn lle i gyfarch ein anghenion a prinder gweithwyr cymdeithasol. Angen cynllun tymor byr a cynllun tymor hirach all gynnwys y posibilrwydd o brosiect Cynllunio Gweithlu Yfory i'r Adran gyda chefnogaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol.

Adran: Economi a Chymuned

Maes: Effaith Cytundeb Brexit

Risg: Busnesau Gwynedd yn cael eu heffeithio yn sgil cytundeb Brexit (E6)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Wedi cydweithio drwy WLGA i fesur effaith posibl Brexit ar gymunedau Gwynedd. Wedi cysylltu gyda'r sector breifat i'w hannog i baratoi ar gyfer y sefyllfa waethaf - dim cytundeb. Wedi cyfathrebu gyda busnesau er mwyn cynnig cymorth a gwybodaeth am y sefyllfa. Meini prawf cronfa fenthyg y Cyngor wedi eu hadolygu i gefnogi busnesau sy'n cael eu heffeithio gan newid Brexit.

Sgôr Risg: 25

Be sydd gael am ei wneud eto?

Angen adolygu'r gwaith ymchwil yn sgil cytundeb Brexit a sefydlu rhaglen gyfathrebu gyda busnesau i'w cefnogi i ymateb ac addasu. Bydd angen cydweithio gydag undebau i roi sylw penodol i'r sector amaeth.

Adran: Economi a Chymuned

Maes: Storiel

Risg: Fod ansawdd cynnig Storiel yn dirywio gan nad ydi'n cynhrychu incwm digonol i gynnal gweithgareddau. (E29)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Ers i arian grant Loteri ddod i ben a rheolaeth y cafffi gael ei fewnoli nid ydi Storiel wedi llwyddo i gwrdd â'i dargedau incwm. Cynllun busnes 5 mlynedd wedi ei sefydlu i gyrraedd targedau incwm newydd, ond yn sgil Covid-19 bydd rhaid adolygu os yw'r targedau incwm yn gyraeddadwy. Cafffi bellach wedi ei gau a bydd adolygiad o opsiynau ar gyfer y gofod yn cael ei gynnal. Cais grant CRF am gefnogi gwaith i edrych ar elfennau incwm a busnes Storiel yn 2021. Adolygiad o'r holl gweithdrefnau yn parhau yn ogystal a thrafodaethau gyda'r prif bartner - Prifysgol Bangor.

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Comisiwn i adolygu gweithrediad y safle ac i adnabod cyfleon incwm i'w weithredu. Angen sefydlu Ymddiriedolaeth Storiel yn ffurfiol er mwyn cael cerbyd i gefnogi'r gwaith codi nawdd. Angen adnabod ffynonellau cyllido, unwaith y bydd cynllun gweithredu newydd mewn lle er mwyn cefnogi'r newidiadau.

Adran: Economi a Chymuned

Maes: Ansawdd swyddi a lefelau cyflog isel yng Ngwynedd

Risg: Lefel cyflogau Gwynedd ar gyfartaledd yn isel (E1)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Rheolwr prosiect wedi ei phenodi a Rhaglen Swyddi Gwerth Uchel wedi ei sefydlu sydd wedi:

- Adnabod sectorau mwyaf arwyddocaol i Wynedd o ran creu swyddi gwerth uchel
- Dylanwau ar benderfyniad i sicrhau parhad gwaith dadgomisiynnu yn Trawsfynydd gan ddiogelu swyddi am gyfnod.
- Cefnogi achos i sefydlu Cwmni Eginio i ddatblygu safle Trawsfynydd a thargedu buddsoddiad £20miliwn drwy'r cais twf i ddatblygu isadeiledd y safle ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel ac isotopau meddygol.
- Arian i'w fuddsoddi yn isadeiledd safle maes awyr Llanbedr wedi ei sicrhau drwy gais Ewropeaidd a chefnogaeth Llywodraeth Cymru.
- Cefnogaeth i'r sector greadigol a digidol yn cael ei ddaparu.
- Gwaith i ymgysylltu pobl ifanc gyda'r cyfleoedd gwaith yn mynd rhagddo a Phrosiect STEM Gogledd yn cael ei arwian gan Gwynedd yn y rhanbarth er mwyn cynnyddu diddordeb pobl ifanc mewn gyrfaedd yn y sectorau gwerth uchel. Newid strwythur yr economi mewn cyfnod o ansicrwydd yn agenda hir dymor. Arian grant ar gyfer rheolwr rhaglen yn dod i ben 31/03/21 ond y deilliannau ddim wedi eu cyflawni - angen parhau i ddylanwadu a chreu'r amodau.

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Mae cyflogau isel yn parhau i fod yn broblem yng Ngwynedd, yn enwedig yn ardal Meirionnydd. Cyfle i ymateb drwy barhau i gydweithio i greu'r amodau cywir i ddatblygu swyddi gwerth uchel o fewn Gwynedd Byddwn wedi cytuno ar raglen i greu mwy o swyddi gwerth uwch yng Ngwynedd gan ystyried effaith COVID a Brexit ar gyflogwyr. Bydd y rhaglen yn canolbwyntio ar hyrwyddo sgiliau a gyrfaedd yn y maes gwyddoniaeth, technoleg, electroneg a mathemateg ac ar ddiogelu a chreu swyddi newydd i'r dyfodol ar safle Trawsfynydd, safle maes awyr Llanbedr, o fewn y sectorau meddygol, peirianyddol, digidol a'r diwydiannau creadigol.

Adran: Economi a Chymuned

Maes: Cryfhau'r Economi Wledig

Risg: Nad yw economi wledig yn ffynnu, ond yn hytrach yn crebachu (E3)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Mae'r Cyngor yn ceisio cryfhau sail yr economi wledig. Wedi denu grant Ewropeaidd i weithredu Rhaglen Datblygu Wledig sydd yn cynnwys pecyn o brosiectau arloesol - Arloesi Gwynedd Wledig. Wedi arwain hefyd ar weithredu Rhaglen ARFOR i gryfhau economi rhanbarth gorllewin Cymru. Wedi annog mentrau lleol i sefydlu a datblygu yn y cymunedau mwyaf gwledig ac wedi buddsoddi mewn isadeiledd technolegol i'w cefnogi. Rhaglen Arfor yn dod i ben 31/03/2021 ac ansicrwydd am barhad cyllideb Rhaglen Datblygu Wledig yn sgil Brexit. Wedi gwneud dadansoddiad o anghenion a pharatoi gweledigaeth newydd er mwyn gwneud achos i'r Llywodraeth fuddsoddi yn ein cymunedau mwyaf gwledig i'r dyfodol.

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Gwendid strwythur yr economi wledig wedi ei amlygu ymhellach gan COVID yn arbennig ein dibyniaeth ar dwristiaeth. Angen gwneud achos i fuddsoddi ymhellach yn yr economi wledig er mwyn gallu parhau gyda gweithgareddau i hyrwyddo arloesedd. Sector Amaeth yn debygol iawn o gael ardrawiad yn sgil Brexit a byddwn yn cydweithio gydag undebau amaeth er mwyn cefnogi datblygiad y sector i'r dyfodol. Byddwn yn cydweithio gyda Grŵp Llandrillo Menai i ddatblygu hwb arloesi gwledig yng Nglynllifon gan roi sylw penodol i ddatblygiad y sector fwyd yn lleol Rhagwelir bydd gofyn cymorth pellach i gefnogi busnesau gwledig i addasu a byddwn yn parhau i gydweithio gyda phartneriaid i ddatblygu'r economi sylfaenol gan hyrwyddo'r defnydd o dechnoleg.

Adran: Economi a Chymuned

Maes: Unedau Diwydiannol

Risg: Nad oes darpariaeth o unedau busnes ar gael i ymateb i'r galw a galluogi busnesau Gwynedd dyfu (E5)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Cofrestr wedi ei sefydlu er mwyn mesur y galw am unedau ar draws Gwynedd.

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Angen datblygu cynllun buddsoddi unedau diwydiannol newydd mewn ymateb i'r galw.

Adran: Economi a Chymuned

Maes: Adfywio

Risg: Gweithgareddau Adfywio'r Cyngor yn cael llai o effaith gan nad ydynt yn ddigon cydlynol (E9)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Risg fod pob gwasanaeth yn gweithredu eu rhaglenni eu hunain yn unol a'u canllawiau grant, ond efallai ddim yn ymateb i wir anghenion a chyfleoedd adfywio Gwynedd. Mae Bwrdd Adfywio wedi ei sefydlu gyda'r bwriad o ddatblygu Rhaglen Adfywio ar gyfer cymunedau'r Sir. Bydd y Rhaglen yn ymgorffori gweithgareddau traws-adrannol ynghyd â blaenoriaethau Cynllun y Cyngor. Serch hynny, rhagwleir y bydd angen adnoddau pellach os am ddatblygu rhaglen uchelgeisiol ar draws cymunedau Gwynedd.

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Byddwn yn sefydlu Fframwaith Adfywio newydd ac yn datblygu 13 Cynllun Adfywio ar gyfer ardaloedd Gwynedd. Byddwn yn ymgynghori gyda rhanddeiliaid er mwyn deall sut mae cymunedau yn dymuno eu hardaloedd ddatblygu yn y 10-15 mlynedd nesaf, ac yn adnabod blaenoriaethau lleol. Bydd y cynlluniau hyn yn rhoi sylw arbennig i anghenion canol trefi a dyfodol y 'stryd fawr' ar draws Gwynedd i'r dyfodol. Byddwn yn sicrhau fod gweithgareddau ar draws Adrannau'r Cyngor yn cyfrannu at ddatblygiad a gweithrediad y Cynlluniau Adfywio hyn.

Adran: Economi a Chymuned

Maes: Cist Gwynedd

Risg: Llai o gymorth grant ar gael i gymunedau i'w galluogi i gymryd cyfrifoldeb am wasanaethau ac aseddu lleol (E12)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Galw am grantiau yn parhau yn gyson a diffyg sicrwydd am gymorth i'r dyfodol yn gwneud y cyfnod gwariant yn fyr. Swyddogion Cefnogi Cymunedau yn ceisio adnabod ffynhonnellau amgen i gefnogi cymundau, ond llai o gymorth ar gael i gymunedau ar hyn o bryd.

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Byddwn yn gwneud tefniadau i barhau i weithredu Cist Gwynedd yn 2021/22

Adran: Economi a Chymuned

Maes: Twristiaeth

Risg: Nad ydi pobl Gwynedd yn elwa o dwristiaeth gan fod yr effeithiau negyddol yn gorbwyo'r manteision. (E13)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Gwaith wedi ei wneud er mwyn deall y newid mewn tueddiadau twristiaeth dros y blynyddoedd ac adnabod y buddion i Wynedd a'r risgiau, yn cynnwys effaith ar gymunedau, iaith a diwylliant yr ardal ac ail-gartrefi. Bidiau wedi eu cyflwyno i Croeso Cymru er mwyn ymateb i'r galw, ond nifer o gronfeydd ar stop oherwydd Covid-19. Gwaith wedi ei wneud er mwyn cytuno ar egwyddorion twristiaeth Gwynedd fydd yn sail i gynllun rheoli i'r dyfodol. Grwp Gweithredol wedi ei sefydlu i edrych ar ymateb i sefyllfa Covid ar gyfer tymor 2021

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Byddwn yn sefydlu gweledigaeth ac egwyddorion ar gyfer twristiaeth i'r dyfodol ac yn datblygu Cynllun Rheoli Economi Ymweld Gwynedd mewn cydweithrediad efo cymunedau a'r sector er mwyn sicrhau y budd gorau i bobl Gwynedd o ymwelwyr. Bydd y Cynllun yn gosd cyfeiriad i bolisiau a gweithgareddau ar draws adrannau'r Cyngor i'r dyfodol, ond bydd hefyd yn cydnabod yr angen tymor byr i ymateb i effaith COVID

Adran: Economi a Chymuned

Maes: Rheolaeth Traethau

Risg: Prif risg ydi diogelwch pobl yn y mor lle gall fod peryglon i fywyd, ynghyd a pheryglon o strwythrau a gwrthrychau ar y traeth. (E17)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, gwelwyd cynydd yn y nifer sy'n ymweld a thraethau Gwynedd yn ystod tymor yr haf gyda newidiadau mewn ymddygiad ac ymwybyddiaeth o beryglon ar yr arfordir. Mae newid wedi ei gyflwyno i strwythur y gwasanaeth yn Ebrill 2020 er mwyn rhoi mwy o sylw i reoli materion morwrol. Mae Cynllun Rheoli traethau wedi cael ei baratoi hefyd er mwyn ceisio diffinio rôl y gwasanaeth yn gliriach a chytuno ar y blaenroiaethau. Mae'n ymdrech i gadarnhau trefniadau cydweithio ar draws adrannau er mwyn sicrhau bod rolau yn glir megis materion casglu gwasatraff a rheolaeth cwn. Mae nifer arwyddion newydd wedi eu gosod ar brif draethau yn tynu sylw at beryglon.

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Codi mwy o ymwybyddiaeth ymwelwyr i ddiogelch os ydynt yn bwriadu ymdrochi yn y mor. Nid ydi'r Cyngor yn darparu adnodd achubwyr bywyd ar draethau Gwynedd, ond yn hytrach yn recriwtio tim o wardeiniad traeth ar gyfer prif dymor yr haf. Byddwn yn adolygu'r adnoddau sydd ei angen i ddarparu'r gwasanaeth sydd yn ymateb i ofynion ein hasesiad risg traethau.

Adran: Economi a Chymuned

Maes: Mesurau Diogelwch Parc Padarn

Risg: Peryglon ar safle Parc Padarn (E24)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Amcangyfrifir fod tua 30 o strwythurau/adeiladau oddi amgylch chwarel Vivien sydd ar y safle. Dros y blynnyddoedd, mae cyflwr rhain wedi dirywio a rhai bellach yn adfeilion. Mae cyflwr y lefelau a bonciau llechi'r chwarel hefyd yn dirywio ac mae cwmp cerrig yn digwydd yn aml ar y safle. Mae asesiad o gyflwr adeiladau / stwythurau chwareli yn cael ei gynnal, asesiadau risg wedi eu paratoi a mesurau brys wedi eu gweithredu. Mae'r Adran hefyd wedi paratoi Cynllun Rheoli Coed ar y safle er mwyn gwarchod diogelwch ar y safle. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer ymwelwyr i ardal Y Glyn o'r Parc gan roi pwysau ar adnoddau lleol. Mae cynlluniau wedi cael eu paratoi i wella mynediad a trefniadau parcio i'r safle.

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Monitro cyflwr strwythurau a gweithredu rhaglen o welliannau sy'n ymateb i'r prif risgiau - yn cynnwys rheolaeth coed, strwythurau hanesyddol a llwybrau. Angen cytuno ar drefniadau cyfathrebu newydd i reoli'r safle mewn ymateb i'r cynnydd welwyd mewn ymwelwyr yn 2020

Adran: Ymgynghoriaeth Gwynedd

Maes: Dŵr ac Amgylchedd

Risg: Effaith Newid Hinsawdd. Lefelau mor yn codi a chynnydd mewn cyfnodau stormus. (N3)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Adnabod lleoliadau bregus o rhan risgiau o effaith stormydd, erydiad a llifogydd arfordirol. Cynnal archwiliadau o asedau perthnasol i sicrhau cyflwr a perfformiad. Rheoli gweithredoedd y Cynllun Rheoli Traethlin. Bod yn weithredol o fewn Grwpiau Arfordirol a fforymau perthnasol eraill. Monitro newidiadau ar arfordir Gwynedd ac adrodd yn ôl yn genedlaethol. Gweithredu ar Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydiad Arfordirol Cymru.

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Parhau ddenu grantiau gan Lywodraeth Cymru i gynnal asedau a chreu cynlluniau i liniaru risgiau llifogydd ac erydiad arfordirol. Gweithredu yn fwy miniog ar gynllun gweithredol o fewn y Cynllun Rheoli Traethlin ac asesu cyfleon yn dod allan o Cynllun Rheoli Traethlin "adnewyddu" . Aseu sut i weithredu ar newid mewn polisiau. Creu strwythur gyda rhan ddeiliad i gydgordio a cheisio darganfod a chyfarch unrhyw wrthdaro.

Adran: Economi a Chymuned

Maes: Amgueddfa Lloyd George

Risg: Fod yr Amgueddfa yn gorfod cau i'r cyhoedd os nad oes incwm i'w gynnal yn cael ei ganfod. (E30)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Dim arian Trysorlys bellach i lenwi'r bwlch ariannol i redeg yr Amgueddfa. Gwaith wedi ei gomisiynu er mwyn cael cyngor arbenigol ar y sefyllfa gyfreithiol. Cydweithio gyda Cyfeillion Amgueddfa Lloyd George er mwyn adnabod camau nesaf. Gwaith asesu pellach yn cael ei wneud i opsiynau i'r dyfodol ac i gytuno ar drefniadau llywodraethu'r Cyngor fel Ymddiriedolwr yn y cyfamser.

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

COVID wedi effeithio ar y gwaith gan arwain at oedi yn yr amserlen gytunwyd rhwng y Cyngor a phartneriaid. Ymddiriedolaeth angen ystyried ei opsiynau a datblygu cynllun busnes newydd er mwyn targedu nawdd i gynnal yr Amgueddfa i'r dyfodol.

Adran: Oedolion, Iechyd a Llesiant

Maes: Darpariaeth gofal preswyl a nyrsio a gofal cartref

Risg: Hyfywdra ariannol darparwyr gofal preswyl a nyrsio a darparwyr gofal cartref (F1)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Disgresiwn i dalu 'retainers' i ddarparwyr pan mae unigolion sy'n derbyn gofal yn treulio cyfnodau yn yr ysbyty. Cytundeb i dalu cost uned uwch i ddarparwyr dros gyfnod Covid gyda chefnogaeth gan y Llywodraeth. Bwrdd Prosiect Gofal Cartref yn parhau gyda'r gwaith o weithio tuag at gytundebu cadarn gyda darparwyr gofal ar gyfer ardaloedd penodol. Cefnogi holl ddarparwyr y maes (Gofal Cartref, Cartrefi Gofal, darparwyr Anableddau Dysgu a Iechyd Meddwl) yn yr un modd a rydym wedi bod yn ei wneud dros y misoedd diwethaf. Sicrhau fod unrhyw arian grant sy'n cael ei glustnodi i'r maes yn cael ei ddyrannu yn gyflym ac i'r ardaloedd/meysydd gyda'r flaenoriaeth fwyaf. Cydweithio a deall y pwysau sydd ar ddarparwyr a chydabod fod pob sefyllfa'n gallu bod yn unigryw. Sicrhau fod ein trefniadau gweinyddu ariannol yn parhau i fod yn hyblyg gan geisio hwyluso trefniadau i ddarparwyr sy'n byw gyda risg ariannol yn enwedig yn ystod y cyfnod hwn. Camau penodol wedi eu cymryd i gynnal ac yna ceisio lliniaru effaith cau ee Cartref y Pwyliaid ym Mhenrhos.

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Rhan o brosiect 'Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r dyfodol' - Ceisio deall "gwir gost gofal" er mwyn ystyried opsiynau posib ar gyfer ein trefniadau comisiynu gofal i'r dyfodol. Sicrhau nad ydi risgiau a bregusrwydd darparwyr yn cynyddu fel y bydd cymorthdaliadau o gronfeydd Covid y llywodraeth yn lleihau neu dod i ben.

Adran: Oedolion, Iechyd a Llesiant

Maes: Gofal nyrsio

Risg: Prinder gwelyau nyrsio yn y sir (F2)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Cyfathrebu yn gyson a chlr gyda darparwyr ynglŷn a'r canllawiau diweddaraf gan sicrhau eu bod yn deall eu goblygiadau a'u cyfrifoldebau yn llawn a nad yw unrhyw ddryswch yn cyfrannu at arafwch yn y system i ymateb i anghenion trigolion. Y gefnogaeth yma'n bennaf gan y Tîm Sicrwydd Ansawdd a'r Tîm Rheolaeth Categori.

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Rhan o brosiect 'Darpriaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r dyfodol'. Sicrhau ein bod yn deall yr angen am ddarpriaeth gwelyau nyrsio yn y sir a symud ymlaen gyda phrosiect Safle Penrhos er mwyn cyfarch y prinder ym Mhen Llŷn.

Adran: Oedolion, Iechyd a Llesiant

Maes: Gofal Dementia

Risg: Prinder gwelyau a darpariaeth cefnogol ar gyfer unigolion yn byw gyda Dementia. (F3)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Wedi buddsoddi mewn 6 o'n cartrefi. Yn adolygu gwasanaethau ataliol fel gofal dydd ac ysbaid a gwaith llesiant yn barhaus gan fod gofalwyr di-dâl yn ysgwyddo pwysau ychwanegol. Bidiau ariannol yn cael eu cyflwyno ac ymdrechion i ddenu arian o gronfeydd megis ICF yn parhau er nad yw hynny yn gosod sylfaen gynaliadwy tymor hir.

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Rhan o brosiect 'Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r dyfodol'. Angen gweithio tuag at gynyddu nifer y gwelyau dementia yn y sir ymhellach. Hyn i gael sylw penodol trwy'r asesiad anghenion poblogaeth. Bwriedir ystyried a yw'n gwasanaethau cefnogol e.e. gofal dydd ac ysbaid yn parhau'n addas er mwyn cwrdd ag anghenion pobl Gwynedd neu os oes angen i ni wneud rhywbeth yn wahanol. Bydd angen blaenoriaethu agor uned dementia pwrpasol sydd wedi'i gwblhau yn Llan Ffestiniog ond sydd heb allu agor oherwydd argyfwng Covid-19. Cwblhau'r gwaith o adeiladu uned dementia ychwanegol yn ein cartref yn y Bermo.

Adran: Oedolion, Iechyd a Llesiant

Maes: Sicrwydd Ansawdd

Risg: Diffyg capasiti digonol yn y drefn bresennol i adnabod problemau a chynnig cefnogaeth cynnar i ddarparwyr (F5)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Swyddog wedi cael secondiad o'r Uned Busnes i gynorthwyo'r tîm ar sail dros dro. Hyn yn llwyddiant ond ar draul gwasanaethau eraill ac felly ddim yn gynaliadwy. Wedi ymateb i gyfnod o ymddeoliad hyblyg un swyddog o mis Rhagfyr 2020 a cyfnod mamolaeth o ddechrau 2021. Bid am adnoddau parhaol i gryfhau y Tîm wedi ei gyflwyno yn Hydref 2020 sydd i'w ail-gyflwyno yn 2021. Adnoddau wedi eu neilltuo i gyflogi un swyddog hyfforddi/sicrwydd ansawdd i weithio'n benodol o fewn y tîm Anabledd Dysgu.

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Rhan o brosiect 'Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r dyfodol'. Angen cryfhau ein gwasanaethau sicrwydd ansawdd i sicrhau cefnogaeth digonol i ddarparwyr gofal i'w helpu i gynnal gwasanaeth o safon i drigolion Gwynedd. Adroddiad craffu i'w gyflwyno ym mis Medi ac ail gyflwyno bid i gynyddu capasiti ym mis Hydref.

Adran: Oedolion, Iechyd a Llesiant

Maes: System WCCIS

Risg: Materion yn ymwneud a system WCCIS (F8)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Risgiau gyda'r cyflenwyr yn effeithio awdurdodau ar draws Cymru ac felly ymdrechion cenedlaethol a rhanbarthol ar y gweill i geisio canfod datrysiadau. Ystyriaeth yn cael ei roi ar lefel lleol i liniaru effaith unrhyw risgiau ar wasanaethau'r Cyngor er bod y gallu i wneud hyn yn gyfyngedig. Mae grŵp prosiect ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd yn bodoli i gytuno ar drefniadau rhannu gwybodaeth a chyflwyno WCCIS i staff iechyd. Mae gwaith yn digwydd i ddatblygu 'prototeip' mewn un ardal, a ddylai fod yn weithredol erbyn mis Mawrth 2021. Ochr yn ochr â'r datblygiadau hyn, mae sefydlu'r 'National Data Resource' yn rhoi cyfleon o'r newydd i ni rannu gwybodaeth rhwng systemau iechyd a gofal. Er enghraifft, rydym yn cynorthwyo cleifion i gael profiad positif wrth adael yr ysbyty, drwy wneud defnydd o'r gallu i wneud 'match' rhwng data gwahanol systemau. Hefyd, mae gwaith ar y gweill i gyflwyno 'apiau' sy'n hwyluso cyfathrebu o fewn timau iechyd a gofal, sydd yn ei dro yn sicrhau bod gofal pobl yn cael ei gydlynu yn well.

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Parhau gyda'r ymdrechion cenedlaethol a rhanbarthol i roi pwysau ar y cyflenwr i ganfod datrysiad o ran diweddarau'r system a'i gwneud yn ddiogel a dibynnol. Gwaith gyda iechyd yn rhan o brosiect 'Ail-ddylunio ein gwasanaethau gofal'. Bwriad i arfogi'r timau integredig (timau sy'n cynnwys staff gofal yn ogystal â staff iechyd) i allu cyflawni'r hyn sy'n bwysig i oedolion Gwynedd. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar hyfforddiant priodol a dileu unrhyw rwystrau technolegol.

Adran: Oedolion, Iechyd a Llesiant

Maes: Recriwtio a chadw staff yn y maes gofal

Risg: Problemau recriwtio a chadw staff yn y maes gofal (F10)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Cabinet wedi cefnogi buddsoddiad dros dro i ymateb i bwysau'r gaeaf ac effaith Covid ac ehangu'r pŵl gweithwyr gofal ar gyfer y dyfodol. Ymgyrch #GalwGofal/#Dare2Care. Cryn ymdrech wedi ei roi i raglenni recriwtio sy'n gwneud llawer mwy o ddefnydd o wefannau cymdeithasol. Bwriad ceisio gwthio ymhellach ar yr agenda yma i weld os gellir llwyddo i recriwtio mwy yng nghyd-destyn effaith argyfwng Covid ar gyflogaeth mewn meysydd eraill. Rydym yn rhagweld y bydd pwysau yn parhau dros y flwyddyn/ddwy nesaf gan y bydd gofyn mewnlenwi ar gyfer gwyliau. Mae'n bosib hefyd y gall parhad y cyfyngiadau Covid gael effaith mwy hir dymor ar les staff a bydd hyn yn creu mwy o fylchau i'w llenwi. Tîm Rheoli'r Adran yn rhoi sylw parhaus i'r mater o ddatblygu unigolion fel rhan o raglen 'succession planning' ar gyfer swyddi allan yn y maes ac ar lefel arwain ac uwch reolaethol, yn ogystal hefyd a'r rhaglen i feithrin talent yn lleol trwy gynlluniau megis hyfforddeion a phrentisiaethau. Angen datblygu staff i fod yn fwy hyblyg hefyd - hynny yw, i allu cynnig cefnogaeth ar draws y Gwasanaeth lle bynnag fo'r angen.

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Rhan o'r prosiect 'Y Gweithlu a Recriwtio i'r maes gofal'. Mae angen adolygu trefniadau'r ymgyrch recriwtio diweddar #GalwGofal er mwyn ystyried sut fyddwn ni'n mynd ati i recriwtio i'r dyfodol. Ystyried ein trefniadau cofrestru ac hyfforddi yn ogystal â threfniadau datblygu staff er mwyn cynyddu hyblygrwydd a chadernid yn y maes. Datblygu cynllun Meithrin Talent i fynd i'r afael â phrinder arbenigedd mewn rhai meysydd.

Adran: Tai ac Eiddo

Maes: Cyflenwad Tai / Gweithredol Tai

Risg: Methu sicrhau fod neb yn ddigartref yng Ngwynedd (13)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

- Wedi penodi 3 Arweinydd Tim i geisio rhoi strwythur i'r gwaith.
- Strategaeth digartrefedd rhanbarthol a Cynllun Digartrefedd Gwynedd - peth cynnydd wedi ei wneud yn yr wythnosau diwethaf i weithredu.
- Diffyg systemau data i helpu blaenoriaethu ein hymateb a sefydlu'r gwir alw ar y gwasanaeth.
- Housing First -dim cynllun yng Ngwynedd lle mae nifer o siroedd wedi cychwyn ers peth amser.
- Diffyg arbenigedd lechyd Meddwl o fewn y gwasanaeth yn arwain at unigolion yn colli tenantiaeth gan nad ydym yn gallu eu helpu'n ddigonol.
- Wedi sicrhau arian grant i benodi swyddog i arwain ar ddigartrefedd ymysg ieuencid y sir ond heb gymryd mantais o'r arian hyd yma.
- Nifer o asiantaethau gwahanol yn cynnig cymorth i ieuencid digartref ond nid oes un pwynt mynediad na threfn gyfeirio ar hyn o bryd. I ymdrin a'r nifer sylweddol o unigolion digartref yn cael eu cartrefu mewn llety dros dro gan nad oes gennym opsiynau lletya addas ein hunain, sydd yn creu gorwariant sylweddol i'r Cyngor
- Wedi cynyddu'r nifer o dai sydd yn ein meddiant i'w defnyddio fel llety dros dro i oddeutu 95.
- Trefniadau mewn lle gyda darparwyr gwely a brecwast ond nid yw hyn yn ateb fforddiadwy nac addas i nifer fawr o bobl. Gwariant presennol oddeutu £4,000 y noson.
- Hosteli Digartref yn cynnig 12 llety dros dro ond mae'r ddarpariaeth wedi dyddio, angen moderneiddio a newid i fodel llety hunan gynhaliol gyda chefnogaeth.
- Nid oes gennym unrhyw gynlluniau llety â chefnogaeth arall ar gael i'w defnyddio ar gyfer anghenion digartrefedd cyffredinol fel hyn.
- Wedi gallu denu arian grant i gwrdd a chyfran sylweddol o'r gost o ddatblygu 47 o dai/fflatiau newydd gan gynnwys moderneiddio a newid ein hosteli i fodel llety â chefnogaeth.
- Wedi denu arian refeniw i uchafu'r gefnogaeth sydd ar gael i unigolion bregus am gyfnod. Bydd y risg yn lleihau wrth i'r datblygiadau gael eu cyflawni.

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Adran: Ymgynghoriaeth Gwynedd

Maes: Dŵr ac Amgylchedd

Risg: Effaith Newid Hinsawdd. Bwrw glaw yn mwy aml ac yn drymach. (N2)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Adnabod digwyddiadau o lifogydd mewnol i dai a gwneud adroddiadau Adran 19. Creu prosiectau penodol i leihau y risgiau o lifogydd i'r dyfodol drwy geisio am arian gan Lywodraeth Cymru. Cynnal archwiliadau o asedau perthnasol i sicrhau cyflwr a perfformiad. Gweithredu ar Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydiad Arfordirol Cymru.

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Parhau i ddenu grantiau gan Llywodraeth Cymru gan gronni digwyddiadau ar lefel dalgylchoedd i osgoi datrysiadau 'lleol' a lliniaru'r risgiau i oll gymunedau Gwynedd o fewn y dalgylchoedd hynny. Codi ymwybyddiaeth o fewn y dalgylchoedd trwy sefydliad cynlluniau cyfathrebu penodol i gynyddu gwytnwch a meithrin cyfrifoldeb dros y risgiau perthnasol ar lefel cymunedau a rhan ddeiliaid perthnasol eraill

Adran: Economi a Chymuned

Maes: Diogelwch staff morwrol

Risg: Staff traethau yn agored i niwed (E18)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Mae achosion wedi codi lle mae staff yn cael eu bygwth neu yn cael eu ymosod arnynt yn rhinwedd eu swydd wrth geisio gwarchod y cyhoedd. Mae achosion wedi codi hefyd lle mae staff wedi cymryd camau i geisio achub bywydau yn y mor. Mae camau yn cael eu cymryd gan y gwasanaeth i hyfforddi staff a darparu offer priodol i warchod yr unigolion e.e. symud i daliadau electroneg yn hytrach na arian parod; gwisgo body-cams fel mesur ataliol

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Angen codi mwy o ymwybyddiaeth ymwelwyr i ddiogelch dwr. Bydd adolygiad pellach o strwythur y gwasanaeth ac ystyriaeth i ymestyn tymor a nifer Wardeinaid Traeth

Sylwadau

Staff traethau yn agored i niwed.